# ATGOFION PLENTYNDOD – ADRODD YR HANES

Pa mor dda yw eich atgofion chi o'ch plentyndod cynnar? Meddyliwch 'nôl, a nodwch eich tri atgof gorau yn fras.

| |
|---|
| |
| |
| |

Beth yn eich barn chi yw'r tri peth mwyaf pwysig i'w gwneud wrth adrodd stori eich bywyd eich hunan, neu fywyd rhywun arall, er mwyn cadw diddordeb eich cynulleidfa? Trafodwch eich syniadau gyda phartner yn gyntaf er mwyn hel eich meddyliau.

| |
|---|
| |
| |
| |

Gwrandewch ar y Prifardd T. James Jones yn siarad am Dylan Thomas yn mynd ar ei wyliau i orllewin Cymru, sef profiad yr ysgrifennodd amdano yn ei gerdd enwog 'Fernhill'. Beth yw'r pethau y mae T. James Jones yn eu cynnwys ac yn eu gwneud wrth siarad sy'n gwneud i'r profiad o wrando fod yn braf i'r llygad a'r glust? Gwnewch nodiadau wrth i chi wrando.

NODIADAU

## ADRODD EICH STORI

Pa wyliau neu ddigwyddiad yn eich plentyndod y gallech chi siarad amdano mewn ffordd fyddai'n ddiddorol i'ch cynulleidfa?

Gwnewch nodiadau byr ar y dudalen hon, a nodi unrhyw frawddegau neu gymalau fyddai'n cynnal sylw'r gwrandawyr – er enghraifft, 'ac wedyn, gredwch chi fyth, ond...' neu 'a beth feddyliech chi ddigwyddodd wedyn?' neu 'heb air o gelwydd, fe welais y peth mwya rhyfedd...'

Cofiwch pa mor bwysig yw adrodd eich stori yn glir, yn drefnus, ond gyda digon o fynegiant yn eich llais gan ddefnyddio iaith yn fywiog.

Rhowch gynnig ar ymarfer y stori eich hun, yna ei hymarfer o flaen grŵp o ffrindiau.